## 14 FFURFLEN FEWNBWN Y TIM, FFURFLEN FEWNBWN ADRODD A'R ADRODDIAD

14.1 Bydd y Contractwr, gan ddefnyddio'r templedi a ddarperir ar system Allrwyd Estyn, (ar ei draul ei hun) yn darparu copïau electronig o'r canlynol drwy system YAR Estyn:

(a) Ffurflen Fewnbwn y Tîm, gan gynnwys ffurflen fewnbwn ar gyfer pob Arolygydd
(b) Ffurflen Fewnbwn Adrodd (wedi'i fformatio'n gywir) yn ymwneud â'r materion sy'n destun ei ran ef o'r arolygiad
(c) Yr Adroddiad; a'r
(ch) holl ddogfennau a thystiolaeth gysylltiedig arall a gasglwyd gan y Contractwr cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad.

14.2 Bydd y Contractwr yn dangos bod gan y Contractwr:

(a) gysylltiad â'r rhyngrwyd; (rhaid i'ch gliniadur allu gweithredu ar WiFi)
(b) system weithredu Windows drwyddedig (Windows 11 neu'n uwch);
(c) mynediad at borwr rhyngrwyd sy'n cael ei gynnal h.y. y fersiynau diweddaraf o naill ei Edge neu Chrome, a
(ch) mynediad at MS Word 2019 (neu ddiweddarach)

**Sylwer**
Mae system yr YAR yn offeryn sydd wedi'i seilio ar Microsoft ac efallai y bydd problemau yn ymwneud â pherfformiad neu ymarferoldeb os ydych yn defnyddio dyfais Apple yn y modd "efelychu PC". Am y rheswm hwn, cewch eich annog yn gryf i ddefnyddio cyfrifiadur personol gyda Windows. Ni ellir defnyddio llechi cyfrifiadurol (gan gynnwys llechi iPad) ar hyn o bryd.

i alluogi'r Contractwr i gyflawni ei rwymedigaethau yn unol ag Amod 14.1.

14.3 Rhaid i strwythur a chynnwys y Ffurflen Fewnbwn Adrodd fod i safon sy'n gofyn am ychydig iawn o waith ychwanegol gan Estyn, a chydymffurfio ag arweiniad ysgrifennu Estyn, fel y cyhoeddir ar y Wefan o dro i dro.

14.4 Bydd angen lanlwytho'r ffeiliau electronig sy'n cynnwys y Ffurflen Fewnbwn Adrodd i ystafell arolygu rithwir Estyn. Ar ôl eu derbyn, byddant yn dod yn eiddo Estyn.

14.5 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir yn unol ag Amod 14.1 uchod yn gyflawn, yn gywir ac yn rhydd o wallau (gan gynnwys firysau meddalwedd, lle bo'n gymwys)

